# OWEN, HENRY (1844 - 1919), hynafiaethydd



**Enw:** Henry Owen
**Dyddiad geni:** 1844
**Dyddiad marw:** 1919
**Rhiant:** Martha Hall Owen
**Rhiant:** William Owen
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** hynafiaethydd
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant
**Awdur:** Bertie George Charles

Ganwyd 12 Mawrth 1844, mab ieuengaf William Owen (1796-1879), U.H., D.L., ymgymerwr a saer dodrefn, Hwlffordd, a Withybush, a'i wraig Martha Hall Owen (1806-1885). Addysgwyd ef yn ysgol ramadeg y Bont-faen a Choleg Corpus Christi, Rhydychen (1862-6), gan raddio'n B.A. yn 1866, B.C.L. yn 1869, a D.C.L. yn 1900. Cyfreithiwr ydoedd ac ymunodd â chwmni Jenkinson Owen, cyfreithwyr yn ninas Llundain, ac ymhen amser daeth yn berchen arno. Wedi iddo ymddiswyddo yn 1914 sefydlodd ei gartref yn Poyston ger Hwlffordd. Yn ei hamdden astudiai hanes a hynafiaethau, yn enwedig hanes a hynafiaethau Sir Benfro. Cyhoeddodd *Gerald the Welshman*, 1889 (arg. newydd 1904); *Old Pembroke Families*, 1902; *Index to the Historical Tour through Pembrokeshire by R. Fenton*, 1894; a *A List of Printed Books treating of the County of Pembroke*, 1897. Gyda chymorth ysgolheigion fel Egerton Phillimore a'r Dr. E. A. Lewis, golygodd *Owen's Pembrokeshire*, 1892[-1936], a *Calendar of Public Records relating to Pembrokeshire*, 1911-4. Bu'n cydweithio ag Edward Laws i gynhyrchu *An Archaeological Survey of Pembrokeshire*, 1896?-1907 (Tenby, 1908). Yr oedd yn aelod o'r Comisiwn Brenhinol ar Ddogfennau Cyhoeddus (1910) a'r Comisiwn Brenhinol ar Adeiladau Hynafol Cymru (1914). Bu'n drysorydd (1906-19) a chadeirydd (1915-9) Cymdeithas y Cymmrodorion, trysorydd cyntaf Llyfrgell Genedlaethol Cymru (1907-19), siryf Sir Benfro (1902), ac yn ustus heddwch ac is-gadeirydd brawdlys chwarterol sir Benfro. Yn 1916 cafodd radd D.Litt. ('er anrhydedd') Prifysgol Cymru. Yn ei ewyllys gadawodd ddetholiad o'i lyfrgell werthfawr i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, a'r gweddill i dref Hwlffordd, eithr ei gasgliad o lawysgrifau i gyd i'r Llyfrgell Genedlaethol (NLW MS. 1341-1453yn awr). Bu farw yn Poyston 14 Ebrill 1919.

## Awdur

**Dr Bertie George Charles**, (1908 - 2000)

## Ffynonellau

*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1918-9, 223-9; 1919-20, 146-7

*West Wales Historical Records* (1910–29), x, 25-8

*Archaeologia Cambrensis*, 1919, 473-5

*Pembrokeshire County Guardian*, 18 Ebrill 1919

*Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales*, i, 107-18

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733154

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu